Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Cwtsh Y Clos**

**Danrallt**
**Carmarthen**
**SA32 8JX**



## Dyddiad yr arolygiad wedi'i gwblhau

09/12/2021

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2021.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau Trwydded Agored y Llywodraeth. Gallwch weld Trwydded Agored y Llywodraeth ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk. Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir, a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Ynglŷn â Cwtsh Y Clos

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarpeir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal Dydd Llawn |
| Person Cofrestredig | Celia Ann Davies<br>Gwenllian Stephens |
| Uchafswm y lleoedd cofrestredig | 30 |
| Iaith y gwasanaeth | Cymraeg |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 13 Ionawr 2020 |
| Ydy hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Nac ydy |
| Ydy'r gwasanaeth hwn yn darparu cynnig gweithredol y Gymraeg? | Ydy. Mae'r gwasanaeth yn darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg ac anghenion diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r wasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Rhagorol** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Da** |
| **Yr Amgylchedd** | **Rhagorol** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Da** |

Ewch i ddiwedd yr adroddiad hwn i gael rhagor o wybodaeth am raddau.

## Crynodeb

Mae plant yn cyfathrebu yn hyderus iawn. Maent wrth eu bodd yn mynegi mwynhâd yn yr hyn maent yn gwneud. Mae plant yn datblygu perthnasedd cryf gyda'i gilydd a staff gofal. Mae plant yn dewis cymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n arwain at ymdeimlad da iawn ac maent yn dangos sgiliau annibyniaeth rhagorol.

Mae staff gofal yn deall a dilyn polisiau a gweithdrefnau i hyrwyddo ffyrdd iach o fyw, diogelwch a llesiant personol. Mae staff gofal yn annog plant i fynegi eu hunain yn dda iawn ac yn rhyngweithio yn gadarnhaol iawn gyda'r plant. Maent yn cynllunio ac yn asesu'n fanwl er mwyn diwallu anghenion addysgol a diddordebau'r plant.

Mae gan y bobl sy'n rhedeg y feithrinfa fesurau effeithiol iawn ar waith i sicrhau bod pawb yn deall eu cyfrifoldebau i gadw plant yn ddiogel. Mae'r amgylchedd mewn cyflwr arbennig o dda tu fewn a thu allan. Maent yn darparu adnoddau eang iawn sydd yn ysgogol i bob oedran a phob cam datblygiad er mwyn meithrin sgiliau datblygiad y plentyn.

Mae'r bobl sydd rhedeg y feithrinfa yn sicrhau eu bod yn cydymffurfio a'r holl reoliadau perthnasol ac yn cyrraedd safonau cenedlaethol. Mae ganddynt weledigaeth cryf ar gyfer y dyfodol. Maent yn rhoi gweithdrefnau sefydlu da ar waith ar gyfer staff gofal. Mae partneriaethau yn ragorol.

| Llesiant | Rhagorol |
|---|---|

Mae plant yn cyfathrebu yn hyderus iawn ac mae eu hanghenion yn cael eu hystyried yn llawn. Maent yn hyderus iawn i ofyn staff gofal am help i dorri bwyd os oes angen. Mae plant yn gwneud dewisiadau a phenderfyniadau am yr hyn sy'n effeithio arnynt. Maent yn dewis eu gweithgareddau yn yr ardal allanol ac yn defnyddio eu dychymyg i arwain eu chwarae. Er enghraifft, mae plant yn mynd ati yn gwbwl hyderus gyda'i gilydd i chwilota am iâ yn yr ardal allanol wrth ddefnyddio adnoddau naturiol. Mae plant yn lleisio eu barn yn hyderus wrth diwallu eu hanghenion personol, megis mynd i'r tŷ bach ac eraill yn cydio mewn jwg i arllwys llaeth eu hunain. Maent yn teimlo yn gyfforddus a hyderus i ddweud wrth staff gofal pan maent yn hoffi neu ddim yn hoffi llysiau penodol ar eu plat ac mae hynny yn cael ei barchu.

Mae'r plant wrth eu bodd yn mynegi mwynhâd yn yr hyn maent yn gwneud. Mae ganddynt ymdeimlad cryf o berthyn i'r feithrinfa. Maent yn hollol gartrefol wrth fynd o du fewn y feithrinfa i'r ardal allanol. Gwelir plant yn rhoi dwylo allan i gael cwtsh gyda staff gofal yn hollol naturiol ar ol iddynt newid cewyn. Mae plant ifanc yn dangos mwynhâd wrth ddewis chwarae ar y ceir bach a thractorau y tu allan. Maent yn meithrin cydberthnasau cryf gyda'u cyfoedion. Clywir plant yn trafod eu teuluoedd wrth y bwrdd bwyd ac yn cael sgwrs difyr gan chwerthin yn uchel. Yn ystod amser cinio, gwelir plentyn ifanc iawn yn canu cân i'w hun yn dawel wrth aros am ei chinio a phlant hynaf yn sgwrsio am beth sydd ar eu siwmperi gan glywed plentyn yn dweud wrth ei ffrind gan wenu *"Edrych! Massey Fergusson yw hwn!"* Mae plant yn gwenu pan mae staff gofal yn rhoi clôd iddynt yn barhaus am wisgo eu hunain, rhannu bwcedi a rhaw tu allan, a thorri bwyd yn annibynnol. Mae'r plant yn gyfarwydd iawn gydag arferion dyddiol ac maent yn teimlo'n ddiogel. Mae plant yn gwrando yn ofalus wrth fynd am dro i lawr y feidr fferm a dangosir pob plentyn bod rhaid gwrando, aros ac edrych cyn croesi'r lôn i fynd i'r cae tuag at yr ieir.

Mae plant yn sensitif tuag at anghenion a theimladau eraill. Maent yn rhoi cwtsh i blant arall ar ol iddynt cael dolur. Mae plant yn dangos hoffter, caredigrwydd ac agosatrwydd tuag at plant ifanc iawn, gan eu cyffwrdd nhw yn ofalus a gwenu arnynt. Mae'r plant a'r oedolion yn rhyngweithio'n gadarn gyda'i gilydd.  Gwelir hyn pan maent yn frwdfrydig ac yn llawn cymhelliad wrth ymgymryd a thasgau megis rhedeg fel ceirw yn yr ardal allanol ac wrth chwilota am drychfilod. Mae gan blant rhyddid i archwilio'r ardal allanol a'u hamgylcheddau dan dô yn ddiogel. Maent yn defnyddio deunyddiau natur go iawn, megis brigau, plu a darnau o blanhigion i greu nythod yn yr ardal cysgodol 'ysgol goedwig'.

Mae plant yn dewis cymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n arwain at ymdeimlad da iawn o gyflawniad ac maent yn dangos hunan-barch yn eu gwaith. Mae plant ifanc yn dewis lliwiau a siapau lliwgar i'w gludo ar eu hosanau nadolig. Mae plant hynaf y feithrinfa yn browd iawn wrth ddangos i oedolion eu gwaith personol eu hunain gan wenu. Mae plant yn

awyddus i ddangos staff gofal beth maent yn gwneud. Pan yn chwarae gyda'r iâ a bwcedi maent yn dweud wrth staff gofal *"Edrych!…fi'n neud sŵp!!"*

Mae plant yn datblygu sgiliau annibyniaeth rhagorol wrth wneud pethau drostynt eu hunain. Mae llawer ohonynt yn ceisio mynd ati i wisgo cotiau, hetiau a gwisg law yn annibynnol, ac eraill yn hapus i ofyn am gymorth staff gofal lle bod angen. Mae llawer o blant yn defnyddio cyllell a fforc yn llwyddiannus i dorri eu bwydydd. Mae bron pob plentyn yn adran hynaf y feithrinfa yn gallu rhoi menyn ar eu tost ac yn arllwys eu llaeth gyda chymorth lle bod angen. Mae plant yn greadigol ac yn ddychmygus wrth arwain eu chwarae yn yr ardal allanol trwy ddewis a dethol offer megis bwcedi, brigau a cherrig i greu rysait dychmygus gyda'u ffrindiau. Mae plant yn dewis a dethol llyfrau yn annibynnol ac yn dychwelyd y llyfrau i'r mannau priodol heb ymyrraeth oedolyn. Mae plant ifanc yn defnyddio tŷ bach a golchi dwylo yn annibynnol. Mae plant bach yn dewis jig-sos ac yn tynnu eu hunain i godi yn defnyddio byrddau ac offer chwarae meddal.

| **Gofal a Datblygiad** | **Da** |
|---|---|

Mae staff gofal yn dilyn gweithdrefnau trylwyr i sicrhau iechyd a diogelwch. Mae staff y feithrinfa yn dilyn trefniadau glanhau dyddiol ac yn cadw cofnodion. Maent yn golchi eu dwylo cyn helpu'r plant yn ystod adegau bwyd ac yn sicrhau bod pob plentyn wedi golchi eu ddwylo cyn bwyta. Fodd bynnag, nid oeddent yn gwisgo cyfarpar diogelu personol (CDP) wrth roi cymorth i blant adeg bwyd. Mae staff y feithrinfa yn dilyn y polisïau a gweithdrefnau ar gyfer newid cewynnau gan sicrhau bod arwynebeddau yn lân, defnyddio newid cyfarpar diogelu personol (CDP) a golchi dwylo ar ôl newid pob cewyn. Mae gan bron pob aelod o staff y feithrinfa dystysgrifau cymorth cyntaf pediatrig, hylendid bwyd a diogelu ac maent yn gyfredol. Mae staff y feithrinfa yn dangos dealltwriaeth sylweddol ar bolisi a gweithdrefnau ar gyfer diogelu plant pan yn trafod senarios posibl. Fodd bynnag, roedd ambell staff gofal yn ansicr ynglŷn â chysyllystiadau gydag asiantaethau allanol. Mae trefniadau cadarn a diogel ar waith ar gyfer goruchwylio'r plant yn ofalus. Mae'r staff yn deall y gweithdrefnau diogelwch i'w dilyn ac yn eu rhoi ar waith, a chaiff gwiriadau diogelwch eu cwblhau yn hynod o ofalus cyn bod plant yn mynd allan i'r ardal awyr agored. Gwelir staff yn gyfri plant ar hyd daith tuag at y cwt ieir a gwelwyd staff yn rheoli plant yn dda iawn wrth gerdded wrth ochr gweithwyr ar y clos. Caiff cofnodion damweiniau, digwyddiadau a meddyginiaeth perthnasol eu cadw a'u llofnodi'n briodol. Mae gan y staff weledigaeth ar alergeddau ac anoddefiadau sydd gan y plant a gaiff rhain eu harddangos yn y feithrinfa. Mae darpariaeth da iawn o fwyd a diod maethlon yn cael ei gynnig. Darperir dŵr, llaeth, llysiau a physgod neu gig a ffrwythau yn ddyddiol.

Mae staff gofal yn dilyn polisi rheoli ymddygiad yn llawn ac yn defnyddio strategaethau ymddygiad cadarnhaol mewn ffordd cyson. Maent yn plygu i lawr i lefel y plant wrth drafod materion megis rhannu gan drafod â'r plant yn dawel, gan ddefnyddio strategaethau i dynnu sylw'r plant ag adnoddau eraill i'w cadw'n hapus a'u diddanu. Mae staff gofal y feithrinfa yn canmol y plant am fod yn gwrtais gan ddweud "*da iawn ti!*" a chlywir staff gofal yn canmol plentyn wrth iddynt dorri bwyd gan ddweud "'*Na ti! Da iawn, sbeshal!*" Maent yn dangos esiampl ac yn modelu rôl yn dda. Maent yn annog y plant i ddweud 'os gwelwch yn dda' a 'diolch' am y bwydydd a'r adnoddau a gânt. Mae staff y feithrinfa yn dangos sensitifrwydd tuag at y plant pan fyddant yn cwympo. Maent yn rhyngweithio yn gadarnhaol iawn gan ddangos cynhesrwydd a charedigrwydd tuag at y plant. Gwelir staff yn rhoi cariad tuag at plentyn trwy eu cofleidio ar ôl iddynt cael dolur. Maent yn gwrando ar llais y plentyn yn ddiflino. Er enghraifft dewisodd plentyn nad oedd eisiau tatws melys, ac er i'r staff annog i'w drio, wnaeth y staff gofal wenu a rhoi clôd i'r plentyn am wneud ei orau.

Mae staff gofal yn hyrwyddo iaith y cartref yn ddyddiol. Maent yn annog plant i fynegi eu hunain yn dda gan ofyn iddynt beth yw eu hoff weithgaredd chwarae. Maent yn rhoi dewisiaidau i'r plant wrth ymgymryd â thasgiau crefft. Er enghraifft, rhoi dewis iddynt am ba lliwiau a siapau i'w gludo ar eu gwaith crefft. Mae gan staff gofal ddealltwriaeth a gwybodaeth wych ar ddatblygiad ac anghenion y plant. Mae staff gofal yn defnyddio

rhaglenni asesu a datblygu llafaredd cyson, ac o ganlyniad, gwelir safon uchel o iaith lafar yn cael ei ddefnyddio gan blant o oed ifanc iawn. Mae cynllunio ac asesu manwl yn cael ei ddarparu er mwyn diwallu anghenion addysgol a diddordebau’r plant ac o ganlyniad i hyn, rhoddir targedau personol i ddatblygu plant yn unigol. Maent yn cynllunio yn drwyadl ar gyfer ardaloedd mewnol ac allanol y feithrinfa ar draws y meysydd dysgu yn seiliedig ar egwyddorion y cyfnod sylfaen. Maent yn dathlu ac yn hyrwyddo dathliadau ar draws y byd ac yn dathlu dathliadau pwysig i Gymru hefyd.

| Yr Amgylchedd | Rhagorol |
|---|---|

Mae gan y bobl sy’n rhedeg y feithrinfa fesurau effeithiol iawn ar waith i sicrhau fod pawb yn deall eu cyfrifoldebau mewn perthynas â llesiant a diogelwch y plant. Mae’r amgylchedd tu fewn a thu allan y feithrinfa yn hollol ddiogel. Mae arweinwyr yn monitro systemau CCTV a mae ganddynt system diogelwch ar y drysau allanol i atal y cyhoedd rhag ddod mewn. Mae asesiadau risg cyffredinol cynhwysfawr yn cael eu cyflawni sydd yn ddogfennau sy’n cael eu hadolygu yn rheolaidd ac maent yn gweithredu arnynt yn effeithiol iawn. Maent yn diweddaru asesiadau risg tân a chofnodion cynnal a chadw cadarn yn rheolaidd.

Mae’r amgylchedd mewn cyflwr arbennig o dda tu fewn a thu allan. Mae'r toiledau a'r cyfleusterau newid yn hygyrch ac yn lân, gan ddarparu preifatrwydd ac urddas priodol i'r plant. Mae'r dodrefn a'r cyfarpar yn addas ar gyfer pob oedran a cham datblygiad, ac mae digonnedd o le i'r plant allu gymdeithasu a symud o gwmpas yn effeithiol iawn.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y feithrinfa yn trefnu'r adnoddau a'r teganau yn effeithiol tu hwnt. Maent yn darparu adnoddau ysgogol i bob oedran a phob cam datblygiad er mwyn hybu a meithrin sgiliau personol a chymdeithasol, sgiliau iaith a sgiliau mathemategol drwy chwarae synhwyraidd, chwarae dychmygol a chreadigol, gweithgareddau byd bach, chwarae corfforol a chwarae rôl. Mae nifer helaeth o lyfrau Cymraeg a Saesneg ar gael i'r plant. Mae ardal awyr agored yn estyniad sylweddol i’r amgylchedd chwarae a dysgu. Maent yn ymestyn gwybodaeth a dealltwriaeth y plant trwy gynnig amrywiaeth eang a chyffrous o adnoddau a gweithgareddau sy’n ysgogi chwilfrydedd ac yn ennyn diddordebau a dychymyg plant. Hynny yw, maent yn defnyddio’r amgylchedd allanol i fynd a’r plant am dro i rhoi bwyd i’r ieir ac i weld y defaid. Gwelir adnoddau o ansawdd uchel tu allan gan gynnwys teganau adeiladu, dringo, chwilota, cerddoriaeth, ysgol goedwig, cornel darllen, wal ddwr, ardal ceir a thractorau. Mae gwaith plant yn cael ei ddathlu tu fewn i’r feithrinfa a gwelir arddangosfeydd lliwgar ac amrywiol yn seiliedig ar themâu tymhorol a rheiny sydd yn hybu iaith a llythrennedd yn ogystal â thema eco ysgolion. Mae nifer da iawn o adnoddau a chyfarpar wedi eu labeli, a hynny ar lefel y plentyn i’w galluogi i ddewis a dethol wrth chwarae yn rhydd. Mae’r bobl sydd yn rhedeg y feithrinfa yn sicrhau bod nifer da iawn o adnoddau chwarae a darllen ar gael, sydd yn ennyn diddordeb y plant am y gymdeithas ehangach, gan ddathlu cydraddoldeb ac ymwybyddiaeth diwylliannol.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth — Da

Mae gan y bobl sy'n rhedeg y feithrinfa weledigaeth dda iawn ar gyfer y dyfodol, ac maent yn rhannu hyn gydag eraill. Maent yn sicrhau bod y datganiad o ddiben yn cydymffurfio â'r holl reoliadau perthnasol ac yn cyrraedd safonau cenedlaethol. Maent yn wybodus am eu cyfrifoldebau rheoliadol. Mae arweinwyr yn sicrhau bod cofnodion gofynnol yn cael eu cadw yn gywir. Mae'r bobl sy'n rhedeg y feithrinfa yn sicrhau bod polisiau yn eu lle, ac mae rhain ar waith yn barhaus. Yn ystod yr arolwg, maent wedi ychwanegu at y polisi diogelu wrth gynnwys gweithdrefnau diogelu Cymru gyfan. Mae gan y bobl sy'n rhedeg y feithrinfa trefniadau trylwyr wrth drefnu a rhannu gwybodaeth gyda staff gofal, ac o ganlyniad i hyn, mae'r cymarebau staffio ac anghenion y plant yn cael eu diwallu'n llawn.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y feithrinfa yn rheoli'r staff yn effeithiol. Maent yn cynnal sesiynau goruchwylio ac arfarnu yn rheolaidd. Mae arweinwyr yn gosod disgwyliadau uchel wrth y staff gofal ac yn cynnal trafodaethau am bolisiau a gweithdrefnau mewn cyfarfodydd staff yn effeithiol. Mae arweinwyr yn dilyn prosesau recriwtio amserol a chadarn er mwyn diogelu'r plant yn ogystal. Maent yn rhoi gweithdrefnau sefydlu da ar waith ar gyfer gwirfoddolwyr a staff gofal. Teimlai staff yn rhan o deulu yn y feithrinfa ac maent yn hapus iawn yn gweithio gyda'r bobl sy'n rhedeg y feithrinfa. Dywedir staff fod arweinwyr yn gefnogol ym mhob agwedd o fywyd y staff. Mae'r bobl sydd yn rhedeg y feithrinfa yn rhagweithiol wrth sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r arferion gorau cyfredol, gan fodloni gofynion canllawiau Bwyd a Maeth Llywodraeth Cymru ar gyfer lleoliadau gofal plant. Mae staff y feithrinfa wedi cwblhau'r hyfforddiant gorfodol. Maent yn ymwybodol o ddyletswydd atal mewn perthynas â radicaleiddio a gweithgarwch terfysgol. Mae gan y bobl sy'n rhedeg y feithrinfa hyfforddiant mwyaf diweddar ar egwyddorion anghenion dysgu ychwnaegol (ADY) ar gyfer ymarferwyr mewn rolau statudol.  Mae gan bob aelod o'r staff wiriad cyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG). Mae'r bobl sy'n rhedeg y feithrinfa hon yn ymgysylltu ag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) a sefydliadau eraill mewn ffordd amserol. Mae'r bobl sy'n rhedeg y feithrinfa yn deall eu rôl a'u cyfrifoldebau.

Mae'r hunanwerthusiad a'r cynllun gweithredu yn bwrpasol, ac yn cynnig adnodd ar gyfer creu cynllun gweithredu, a gaiff ei fonitro a'i archwilio'n barhaus gan y bobl sy'n rhedeg y feithrinfa. Maent yn casglu ac yn adolygu barn staff y feithrinfa, y rhieni a'r plant er mwyn creu targedau a newidiadau i'r feithrinfa.

Mae'r partneriaethau yn rhagorol. Mae rhieni'r plant sy'n defnyddio'r feithrinfa yn canmol y gwasanaeth yn fawr. Maent yn dweud wrthym eu bod yn hapus iawn â rheolwyr a staff gofal y feithrinfa gan ddweud fod y gofal a'r cydweithrediad yn ragorol. Dywedodd rhiant arall bod y staff gofal o hyd yn ofalgar ac yn rhoi cymorth a'r rheolwyr yn ffantastig. "*Rydym fel rhieni o hyd wedi bod yn hapus gyda'r darpariaeth, sy'n creu awyrgylch famol gyda phwyslais ar yr awyr agored a byd natur"* Maent yn teimlo eu bod yn cael gwybod yn llawn am unrhyw newidiadau i'r gwasanaeth. Mae'r feithrinfa wedi ennill gwobrau 'Eco' a gwobr

bwyta’n iach. Maent yn codi arian tuag at elusennau lleol. Mae ganddynt bartneriaeth dda gyda’r ysgol leol a’r gymuned ehangach. Mae’r bobl sy’n rhedeg y feithrinfa yn manteisio ar gyfleoedd i fynd a’r plant allan i fferm gyfagos, llyfrgell a pharc lleol.

## Argymhellion er mwyn cydymffurfio â'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol

Ychwanegwch R1. R2. ac ati a'r geiriad sydd ei angen â llaw. Nid rheoliadau yw'r rhain, ond safonau gofynnol cenedlaethol.

R1. Annog staff gofal i ddefnyddio cyfarpar diogelu personol wrth roi cymorth i blant adeg bwyd

R2. Sicrhau fod pob un o’r staff gofal yn ymwybodol o bolisiau a gweithdrefnau mwyaf diweddar ar ddiogelu plant.

| Crynodeb o'r achos o ddiffyg cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd y diffyg cydymffurfio hwn yn yr arolygiad. |
| **Wedi ei adolygu** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn yr adolygiad hwn ond ni chafodd ei chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb ei gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn yr adolygiad hwn ond ni chafodd ei chyflawni. |
| **Wedi ei gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn yr adolygiad hwn ac fe'i cyflawnwyd. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfiaeth â'r rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a / neu risg i'w llesiant eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad | Dd/G |
| 20 (1) (b) | Mae arweinwyr wedi methu cydymffurfio gan ddilyn prosesau goruchwylio manwl. | Wedi ei gyflawni |

Pan rydym yn canfod achos o ddiffyg cydymffurfio â'r rheoliadau ond nad oes unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn eu hamlygu fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu er mwyn unioni hyn, a byddwn yn ei ystyried eto yn ystod yr arolygiad nesaf. Os bydd y darparwyr wedi methu â chyflawni'r gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Meysydd I'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad | Dd/G |
| 31 (2) (a) | The registered persons have not notified CIW and safeguarding in regards to a serious incident that happened at the nursery. | Wedi ei gyflawni |

| Graddau | Yr hyn y mae'r graddau yn ei olygu |
| --- | --- |
| **Rhagorol** | Mae'r rhain yn wasanaethau sy'n ymrwymedig i wella'n barhaus ac mae ganddynt lawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Dyma wasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hyrwyddo eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Mae'r rhain yn wasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella.<br>Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hybu llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Mae'r rhain yn wasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na.<br>chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle mae gwasanaethau'n wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyflwyno hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**Dyddiad Cyhoeddi** 04/02/2022